| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Darllen amserlen |
| Disgrifiad: | Mae'r dysgwyr yn defnyddio amserlen i gynllunio taith Dylan Thomas yn ôl i Abertawe. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 (Uchaf) |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Datblygu ymresymu rhifyddol<br>**Adnabod prosesau a chysylltiadau**<br>• trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd<br>• adnabod y sgiliau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad<br><br>Defnyddio sgiliau mesur<br>Bl 5<br>• darllen a defnyddio clociau analog a digidol<br><br>Bl 6<br>• defnyddio a dehongli amserlenni a rhestrau er mwyn cynllunio digwyddiadau a gweithgareddau a chyfrifo fel rhan o'r broses gynllunio. |
| Testun Dylan Thomas | Gellir cysylltu'r gweithgaredd â 'Return Journey' er mwyn cael cyd-destun |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • CA2_TaflenAmserlen/KS2_TimetableWorksheet-_CYMRAEG<br>• Bwrdd gwyn a mynediad i'r rhyngrwyd i ddangos y wefan www.trainline.com a thaflen waith |
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Trafod amserlenni a pham maen nhw'n cael eu defnyddio.<br>• Dangos sut gellir defnyddio gwefan www.trainline.com i gynllunio taith o orsaf Paddington, Llundain i Abertawe.<br>• Trafod ffyrdd o gyfrifo hyd y daith (a ddangosir ar y wefan), e.e. cyfrif ymlaen.<br>• Cliciwch ar daith sydd ag un newid. Bydd hyn yn dod â thudalen sy'n dangos pryd mae'r trên yn cyrraedd ac yna'n gadael gorsaf Casnewydd Gwent (Newport Gwent).<br>• Gofynnwch i'r dysgwyr gyfrifo faint o amser fyddai gyda nhw yn yr orsaf cyn dal y trên sy'n cysylltu.<br>• Rhowch y taflenni Amserlenni i'r dosbarth.<br>• Edrychwch dros yr amserlen gan esbonio sut byddai amserlenni wedi cael eu dangos yn yr orsaf drenau pan oedd Dylan Thomas yn teithio'n ôl i Abertawe. |

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau estyn: | • Gallai'r dysgwyr greu eu hamserlenni eu hunain i leoliadau o'u dewis ac yn ôl gan ddefnyddio 3 thrên a 6 gorsaf.<br>• Gallai'r dysgwyr ailysgrifennu'r amserlen gan ddefnyddio nodiant cloc 12 awr. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Gellir addasu'r daflen i ddefnyddio'r cloc 12 awr i ddysgwyr gwaelod CA2. |